Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Maniffesto | Medi 2025

Maniffesto | Etholiadau'r Senedd 2026





Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales
Environment Link

Cyflwyniad: dim byd natur, dim dyfodol 2

Dyfodol cyfoethog ei fyd natur ar gyfer ein ffermydd, ein hafonydd a'n moroedd
Fferm iach 4
Afon iach 5
Môr iach 6

Llywodraethu ein hamgylchedd mewn modd effeithiol 7

Mwy o ryddid mynediad 8

Arferion ffermio cydnerth a all wrthsefyll argyfwng 9

Adfer rhywogaethau a chynefinoedd 10

Cynllunio fwyfwy ar gyfer byd natur 12

Glanhau a rhoi gwerth ar ein cyrsiau dŵr 13

Adfer ein cefnforoedd 14

Gweithredu ar blastigion untro 16

Dyfodol tlawd ei fyd natur y mae angen i ni ei osgoi
Fferm afiach 17
Afon afiach 18
Môr afiach 19





Mae 76% o bobl am i lywodraethau wneud mwy dros fyd natur



Gwartheg yn pori yn Eryri



Ji-binc

© Jemma Bere

Cyflwyniad: dim byd natur, dim dyfodol

Mae 1 o bob 6 o'n rhywogaethau mewn perygl o ddifodiant yng Nghymru. Mewn arolwg diweddar gan RSPB Cymru,roedd ar 76% o'r ymatebwyr eisiau gweld llywodraethau cyfredol a llywodraethau'r dyfodol yn gweithredu mwy i fynd i'r afael â cholli byd natur. Dywedodd 77% eu bod am weld mwy o fyd natur yn ffynnu yn eu mannau gwyrdd, ac roedd 80% o'r farn bod amser a dreulir ym myd natur yn bwysig i'w llesiant. Dros y 50 mlynedd ddiwethaf, mae bron hanner yr adar, y mamaliaid, yr amffibiaid, y pysgod, y pryfed a'r infertebratau ar ein tiroedd ffermio wedi diflannu, yn ogystal â mwy na 90% o laswelltiroedd llawn blodau, a'r buddion y maent yn eu sicrhau i'n hamgylchedd a'n pobl.

Yn y maniffesto hwn, mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi nodi'r gofynion pwysicaf i greu Cymru gyfoethog ei byd natur. Arferai ein gwlad fod yn llawer mwy bioamrywiol; heddiw, rydym yn safle 224 allan o 240 o wledydd o ran 'cyfanrwydd bioamrywiaeth'. Dim ond 20% o'n safleoedd gwarchodedig ar gyfer natur sydd mewn cyflwr ffafriol; mae angen i Gymru fod â byd natur toreithiog eto, fel y dylai fod.

Mae ein graffigwaith yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cymru gyfoethog ei byd natur; un lle rydym yn cyrraedd ein targedau natur a charbon ar gyfer 2030. Ar y llaw arall, mae ein graffigwaith o Gymru dlawd ei byd natur yn dangos senarios a allai ddigwydd os byddwn yn cadw byd natur fel y flaenoriaeth isaf; Cymru lle mae cynefinoedd yn cael eu diraddio, rhywogaethau'n cael eu colli, a'n haer, ein dŵr a'n pridd yn mynd y tu hwnt i adferiad. **Os bydd yr amgylchedd yn parhau i fod y flaenoriaeth isaf ar agenda Llywodraeth Cymru, y dyfodol tlawd ei fyd natur hwn yw'r un yr ydym mewn perygl o lithro i mewn iddo. Os rhoddir gwerth ar yr amgylchedd, os buddsoddir ynddo, ac os byddwn yn gwrando ar yr arbenigwyr, gallwn gyrraedd y dyfodol cyfoethog ei fyd natur y mae arnom i gyd eisiau ac angen ei weld.**


Gylfinir


Coedwig clychau'r gog


© Rory Francis

Mae byd natur yn aml yn flaenoriaeth strategol ond nid yn flaenoriaeth ariannu

Fel yr amlygir yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, mae byd natur a'r hinsawdd yn aml yn "flaenoriaeth strategol ond nid yn flaenoriaeth ariannu", a rhaid i'r cyllid ddilyn neu ni chaiff unrhyw gamau sylweddol eu cymryd. Rydym yn nodi mwy o fanylion ar faint yr her yn ein hadroddiad Llwybrau i 2030, lle rydym yn cyfrifo cost ymyriadau natur-bositif angenrheidiol mewn 10 maes hanfodol: tiroedd ffermio, arfordiroedd, y moroedd, mawndiroedd, glaswelltiroedd, mannau gwyrdd trefol, safleoedd gwarchodedig a dynodedig, afonydd, coetiroedd, ac adferiad rhywogaethau. I gyflawni hyn, mae arnom angen ffrydiau ariannu hirdymor sylweddol, a rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i arwain mentrau i ddylanwadu ar gyllid preifat trwy ddatblygu marchnadoedd natur newydd a gweithio'n agos gydag arbenigwyr i sicrhau buddion o ansawdd uchel i fyd natur. O'i wneud yn iawn, bydd mentrau o'r fath yn creu swyddi gwyrdd medrus ac yn cefnogi economïau lleol, gan sicrhau buddion i gymunedau a'u grymuso i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd ar y cyd.

Nodwn fod chweched cyfnod y Senedd wedi llunio nifer o adolygiadau ac adroddiadau ac iddynt lawer o argymhellion rhagorol. Mae angen i ni weld y rhain yn cael eu cyflawni ar frys, felly, yn ogystal â'n ceisiadau ar gyfer y seithfed Senedd, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, y Grŵp Her Sero Net, y Comisiwn Dŵr Annibynnol a arweinir gan y DU, adroddiad annibynnol 2025 ar y rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, adroddiad Archwilio Cymru ynghylch y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, ac argymhellion o'r Uwchgynadleddau Afonydd yng Nghymru.


Bydd y maniffesto hwn yn amlinellu'r polisïau gofynnol i sicrhau bod y Senedd nesaf yn cyflawni dros fyd natur. Y gwaddol gorau i genedlaethau'r dyfodol fydd adfer yr amgylchedd naturiol fel y gall gynnal pob agwedd ar eu llesiant.


Morfa yng Nghwm Ivy

© Gordon Price

Dyfodol cyfoethog ei fyd natur ar gyfer ein ffermydd, ein hafonydd a'n moroedd

Fferm iach



1. Glaswelltiroedd llawn blodau yn cynyddu nifer y peillwyr ac mae yna niferoedd iachach o bryfed ar y fferm

2. Mae llwybrau mynediad diogel sy'n cael eu cynnal yn dda yn helpu pobl i ddefnyddio hawliau tramwy mewn modd cyfrifol

3. Mae coed ar ffermydd yn darparu cysgod a lloches i anifeiliaid fferm

4. Mae perthi iach yn darparu cynefin i adar a choridorau rhwydweithiau natur ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt

5. Mae pyllau yn helpu i ddarparu cynefin i ddwy ran o dair o rywogaethau dŵr croyw


6. Mae priddoedd iach yn cynnig gwell cyfrwng tyfu i gnydau ac yn dal mwy o garbon.

7. Mae pryfed yn peillio cnydau, yn darparu cydbwysedd mewn ecosystemau, ac yn cefnogi system rheoli plâu integredig, gan leihau'r angen am blaladdwyr

8. Mae patrymau pori cylchdro yn cynyddu iechyd caeau

Dyfodol cyfoethog ei fyd natur ar gyfer ein ffermydd, ein hafonydd a'n moroedd

Afon iach



1. Mae cadw cŵn ar dennyn yn helpu i atal effaith triniaethau chwain sy'n cynnwys plaladdwyr ar yr afon

2. Mae coetiroedd afonydd yn cadw'r dŵr yn iach, yn darparu cynefin ac yn atal erydiad

3. Mae llystyfiant amrywiol mewn lleiniau clustogi yn helpu i amddiffyn yr afon rhag dŵr ffo a llygredd, ac yn sefydlogi ei glannau

4. Caiff gweoedd bwyd iach eu cefnogi, megis y modd y mae'r planhigyn crafanc y dŵr yn cynnal cynefinoedd eogiaid a brithyll ifanc

5. Mae arferion pysgota cynaliadwy – megis dal a rhyddhau ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl, er enghraifft eogiaid a brithyll – yn helpu i adfer ein stociau pysgod

6. Mae diogelu pyllau a phyllau dŵr tymhorol yn rhoi hwb i rywogaethau dŵr croyw oherwydd eu cynefinoedd

7. Mae poblogaethau iach o bryfed dŵr croyw yn helpu i gadw'r dŵr yn lân ac yn sail i we fwyd ffyniannus

8. Gall arferion hamddena cyfrifol mewn perthynas ag afonydd helpu i atal rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu i ecosystemau eraill

Dyfodol cyfoethog ei fyd natur ar gyfer ein ffermydd, ein hafonydd a'n moroedd

Môr iach



1. Mae ynysoedd â phoblogaethau adar môr yn ddiogel o ganlyniad i flaenoriaethu mesurau bioddiogelwch

2. Mae'r poblogaethau adar môr yn ffynnu diolch i Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru

3. Mae camerâu ar fyrddau llongau pysgota yn sicrhau monitro electronig o bell

4. Mae rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig dan reolaeth dda wedi sicrhau cynllunio sy'n sensitif i fyd natur ac sy'n optimeiddio potensial ein moroedd ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn modd diogel

5. Gweithredwyr twristiaeth yn mynd ati mewn modd cyfrifol i wylio dolffiniaid a morfilod

6. Mae storfeydd carbon glas a chynefinoedd pwysig ar wely'r môr yn cael eu diogelu rhag difrod

7. Mae codau ymddygiad sy'n cael eu cyfathrebu'n dda yn helpu i sicrhau y gall morloi sy'n bridio ffynnu

8. Llygredd plastig yn cael ei atal oherwydd bod prosesau ailddefnyddio cenedlaethol, Cynllun Dychwelyd Ernes a systemau ailgylchu da ar gael




Dôl

Nid yw ein llywodraethu amgylcheddol wedi bod yn addas i'r diben a rhaid ei gryfhau

Llywodraethu ein hamgylchedd mewn modd effeithiol

Mae llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys gweithredu a gorfodi deddfau allweddol, a darparu adnoddau ar gyfer monitro amgylcheddol, wedi gwanhau dros y degawd diwethaf. Nid yw llawer o'n systemau llywodraethu a rheoleiddio yn addas i'r diben, nac yn cael eu cefnogi gan brosesau monitro digonol. Mae angen i ni weld cyfraith amgylcheddol Cymru yn cael ei chyflawni a'i gorfodi, a hynny trwy Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth), sy'n hir-ddisgwyliedig, gyda Llywodraethau nesaf Cymru yn cyflawni'n unol ag ymrwymiadau i:

- Sefydlu fframwaith ar gyfer targedau natur cadarn, gyda'r prif ofyniad yn un i wrthdroi colli toreithrwydd rhywogaethau cyn pen deng mlynedd. Hefyd, cyflwyno'r targedau hynny o fewn blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd, a'r rheiny'n dargedau hirdymor a thros dro fel bod llywodraethau olynol yn cael eu dwyn i gyfrif.
- Sicrhau Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru gref ac annibynnol, sy'n cael ei hariannu'n dda, a chanddi'r pwerau gorfodi gofynnol i ddal awdurdodau cyhoeddus yn atebol am gyflawni cyfraith amgylcheddol a galluogi dinasyddion Cymru i gyrchu eu hawl i gyfiawnder amgylcheddol.
- Buddsoddi mewn prosesau monitro amgylcheddol ar y tir, yn ein hafonydd ac ar y môr – yn enwedig o fewn ein safleoedd gwarchodedig – i ddangos bod Cymru'n cyflawni ei thargedau ac yn lleihau llygredd.
- Datgloi potensial tirweddau dynodedig ar gyfer natur trwy ddiwygio eu dibenion, eu dyletswyddau a'u trefniadau llywodraethu statudol, gan gynnwys diben newydd i adfer byd natur a'r hinsawdd ar gyfer Parciau Cenedlaethol i lywio eu cynlluniau rheoli a'r broses o'u rhoi ar waith.



Tylluan wen

© Jemma Bere

Mae arnom angen gwell cyfleoedd i bawb gysylltu â natur



Ynys Lochtyn

© Gordon Price


Troeon coedwig

Mwy o ryddid mynediad

Mae mynediad i gefn gwlad yn un o hawliau mwyaf gwerthfawr dinasyddion Cymru, ond mae'r flaenoriaeth a roir i welliannau gan lunwyr polisïau yn wael. At ei gilydd, cafodd hyn ei anwybyddu gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, tra bo'r seilwaith llwybrau, yn gyffredinol, yn parhau i gael ei esgeuluso – ffaith sy'n golygu bod 50% o hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u rhwystro neu heb arwyddion ar hyn o bryd. Mae angen i ni weld y canlynol:

- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i Gymru yn cael ei datblygu i ddarparu gwell mynediad at fyd natur; byddai hyn yn sicrhau gwell cyfleoedd i bawb ddod i gysylltiad â byd natur yn agos at le maent yn byw. Dylai'r ddeddf olygu bod hawl pobl i gael mynediad i gefn gwlad yn cael ei ehangu o ganlyniad i ddiweddaru'r diffiniad o 'gefn gwlad agored', a hynny trwy gyfrwng polisïau a lunnir yng Nghymru.
- Cyfleoedd i facpacwyr cyfrifol wersylla yn ein parciau cenedlaethol ac yng nghefn gwlad agored, gyda gwasanaeth parcmyn a ariennir yn dda yn helpu i fonitro, addysgu a gorfodi.
- Ymrwymiad i gyllid digonol i alluogi Awdurdodau Lleol i fodloni eu gofyniad statudol i gynnal, amddiffyn a chofnodi hawliau tramwy cyhoeddus.
- Sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, lle bo gan yr awdurdod cyfrifol well pwerau llywodraethu.



Buwch wen Gymreig ar Fferm Brynau

Arferion ffermio cydnerth a all wrthsefyll argyfwng

Mae dros 80% o dir Cymru yn dir ffermio, felly mae'n anochel bod y ffermwyr – sef stiwardiaid y rhan helaeth o dirwedd ein gwlad – yn allweddol o ran gwrthdroi tynged ein rhywogaethau a'n cynefinoedd. Er gwaethaf canran uchel y tir ffermio yng Nghymru, nid yw ein system fwyd yn gallu gwrthsefyll siociau economaidd na siociau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac mae'r DU yn mewnforio 46% o'r bwyd y mae'n ei fwyta. Mae angen i ni weld Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n gweithio ar gyfer pobl, byd natur a'r hinsawdd; cynllun ac iddo fecanweithiau llywodraethu a gwella eglur i sicrhau y gall pob ffermwr elwa o'r cymorth i addasu i arferion ffermio mwy adfywiol. Er mwyn sicrhau ei fod yn rhedeg yn dda, rhaid:
    - Sicrhau cyllideb amlflwyddyn wedi'i chlustnodi i gefnogi ffermwyr Cymru i drawsnewid i arferion ffermio natur-bositif, gan gynnwys cynlluniau i ddyrannu dwy ran o dair o'r arian i'r haenau Dewisol a Chydweithredol, lle bydd yr adferiad mwyaf yn digwydd ym myd natur.
    - Buddsoddi mewn systemau digidol a gweinyddol cadarn i symleiddio ceisiadau, monitro a thaliadau.
    - Llunio Cynllun Gweithredu Organig i Gymru ac ymrwymo i darged o 10% o dir organig erbyn 2030, a hynny gyda chymorth ariannol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i newid i ffermio organig a'i gynnal er mwyn diwallu'r galw cynyddol a lleihau mewnbynnau cemegol.
    - Pennu'r modd y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyfrannu at dargedau adfer byd natur a bioamrywiaeth sefydledig, gan sicrhau ei fod yn werth da am arian cyhoeddus.
- Cyflwyno fframwaith Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer ffermio i ddarparu llinell sylfaen reoleiddio eglur ac effeithiol ar gyfer pob ffermwr yng Nghymru.

Galluogi newid sylweddol hanfodol i ffermio adfywiol



Britheg y gors

© Kelly Thomas

Hyfforddi'r genhedlaeth nesaf mewn ecoleg gyda'r Gwasanaeth Natur





- Sicrhau prosesau rheoleiddio effeithiol o ran systemau da byw diwydiannol, a hynny trwy estyn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ffermio dwys a llunio Nodyn Cyngor Technegol ar gyfer da byw dwys.
- Datblygu Cynllun Cydnerthedd Bwyd sy'n meithrin cysylltiadau cryf rhwng cynhyrchu a defnyddio, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd caffael cenedlaethol a lleol ar gyfer cynnyrch Cymru, a chefnogi cynnydd mewn cynhyrchu ffrwythau a llysiau fel y gallwn gael bwyd iachach sydd wedi'i gynhyrchu'n agosach at gartref.
- Blaenoriaethu cynnydd o ran cyflawni targed Cymru i leihau plaladdwyr 50%, gan gefnogi'r newid i ddulliau rheoli plâu integredig sy'n eu defnyddio fel y dewis olaf, a lleihau mynediad y cyhoedd at ddulliau rheoli plâu niweidiol.

Adfer rhywogaethau a chynefinoedd

Llywodraeth nesaf Cymru fydd yr un a fydd yn cyflawni neu'n methu ein targedau natur ar gyfer 2030 – rhaid iddi bennu a chyflawni llwybrau i'r targedau hynny, gan ddefnyddio polisïau ac adnoddau ar draws portffolios i gyflawni newid sy'n fuddiol i fyd natur, yr hinsawdd a chymunedau, ac a fydd yn ysgogi twf mewn swyddi ac yn ail-lunio'r economi wledig i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid iddi wneud y canlynol:


- Mynd ati mewn modd rhagweithiol i gyflawni argymhellion gorchudd coed Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU – trwy blannu a dulliau adfywio naturiol – a hynny fel cam allweddol tuag at gyflawni ymrwymiadau sero net Cymru, gyda mesurau diogelwch priodol ar waith ar gyfer cynefinoedd mewn bod a chanddynt werth natur uchel neu botensial adfer.
- Sefydlu'r Gwasanaeth Natur i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf mewn ecoleg a sgiliau gwydnwch rhag yr hinsawdd, ac i adeiladu'r gweithlu eco-lythrennog y mae arnom ei angen i greu economi werdd.



Cors mawn yng Nghwarchodfa Natur Cors Caron

Estyn a chynyddu coridorau natur i helpu gwydnwch rhywogaethau a'u gallu i symud yn ddiogel


- Cynyddu buddsoddiad ar gyfer byd natur yn unol â'n adroddiad Llwybrau i 2030, a sicrhau bod y cynlluniau cyfredol effeithiol – megis y Gronfa Rhwydweithiau Natur – yn parhau, ac yn cael eu cysoni'n strategol i gyflawni thargedau natur.
- Cynyddu hyd a lled, rhyng-gysylltedd a gwydnwch rhwydwaith yr ardaloedd gwarchodedig fel bod i ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel well cysylltedd, gyda hyn, yn ei dro, yn cynyddu gwydnwch rhywogaethau a'u gallu i symud yn ddiogel rhwng ardaloedd.
- Gweithio gyda gwledydd eraill y DU i wahardd gwerthu mawn garddwriaethol ac i ddiogelu cyllid ar gyfer adfer mawndiroedd.
- Adfer a gwarchod cynefinoedd carbon glas pwysig, megis morwellt, morfeydd heli a riffiau wystrys.
- Cyflwyno strategaeth ailgyflwyno rhywogaethau, gan bennu llwybr ac iddo amserlenni rhesymol fel nad yw tystiolaeth yn dyddio.
- Ymgynghori ar strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol newydd mewn perthynas â bygythiadau penodol i Gymru, a hynny i ategu Strategaeth Prydain Fawr.
- Darparu cyllid hirdymor i wella cyflwr ardaloedd gwarchodedig a chefnogi rheolaeth briodol ar Fesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill (OECMs).
- Sicrhau gostyngiad mewn llygredd o bob math sy'n effeithio ar fyd natur, gan gynnwys ffosffad, plaladdwyr, gormod o olau yn ystod y nos, a sbwriel.



Drudwen

Diogelu a gwella bywyd gwyllt trwy bob datblygiad newydd


Gwenoliaid duon yn hedfan dros doeau


Coedwig fwsoglyd

Cynllunio fwyfwy ar gyfer byd natur

Mae systemau cynllunio yng Nghymru wedi gwella dros y blynyddoedd, ond nid ydynt yn mabwysiadu dull byd natur yn gyntaf o hyd, a hynny hyd yn oed pan fydd problemau megis ansawdd dŵr yn codi o ganlyniad i gynllunio gwael.

Er mwyn cynllunio mwy ar gyfer byd natur, dylem wneud y canlynol:

- Mandadu gwaith dylunio ac adeiladu sy'n gyfeillgar i fyd natur yn achos pob datblygiad newydd, gan ysgrifennu pennod newydd ar fioamrywiaeth yn Rheoliadau Adeiladu 2010 a gwella adrannau bioamrywiaeth Polisi Cynllunio Cymru fel bod yn rhaid i bob cynnig datblygu newydd gynnwys nodweddion sydd wedi'u cynllunio a'u lleoli'n addas i amddiffyn a gwella bywyd gwyllt.
- Darparu mwy o eglurder ynghylch sut y gall datblygwyr gyflawni Budd Net i Fioamrywiaeth ar y safle.
- Datblygu a chyflawni dull strategol a gofodol o gynllunio seilwaith ynni, a hynny ar dir a môr, gan ofalu bod byd natur yn ystyriaeth flaenllaw yn y broses o ddewis safleoedd fel y gellir sicrhau canlyniadau'n unol â thargedau yn achos ynni adnewyddadwy a byd natur.
- Cydnabod bod golau artiffisial yn llygrydd, ac ymrwymo i leihau llygredd golau, a hynny trwy dargedau lleihau statudol awdurdodau lleol a chanllawiau cynllunio sy'n lleihau golau artiffisial diangen ac yn amddiffyn cynefinoedd ar gyfer pryfed ac anifeiliaid nosol.
- Annog busnesau (ochr yn ochr ag awdurdodau lleol) i fabwysiadu canllawiau arfer gorau awyr dywyll, gan ddarparu cymorth ar gyfer ôl-osod gwell opsiynau goleuo, a blaenoriaethu ardaloedd a nodwyd yn goridorau natur dywyll.



Afon Taf ym Mharc Bute

Glanhau a rhoi gwerth ar ein cyrsiau dŵr

Nid yw pryder y cyhoedd ynghylch cyflwr yr amgylchedd dŵr, ac afonydd yn benodol, erioed wedi bod yn uwch; dangosodd pôl yn 2024 fod 78% o bobl yn credu bod cyflawniad y prif bleidiau gwleidyddol o ran llygredd afonydd yn wael. Mae angen i ni weld blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wella ein cyrff dŵr gan eu bod yn hanfodol i fyd natur ac iechyd pobl, a hynny trwy:

- Cyflymu'r broses o roi camau gweithredu strategol a phenodol ar waith sy'n unol ag argymhellion yr Uwchgynhadledd Afonydd, ynghyd â'r argymhellion o adroddiad annibynnol 2025 ar y rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.
- Gosod targed canlyniadau lefel uchel i sicrhau bod yna ostyngiad o 50%, o leiaf, mewn perthynas â cholli gormod o faethynnau, a sicrhau bod 100% o'r cyrff dŵr yn cael eu monitro'n weithredol bob blwyddyn erbyn 2027.
- Diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i hyrwyddo prosesau gwarchod ein hafonydd, a hynny trwy gynnwys darpariaethau newydd ar gyfer ffermio dwys a rhoi gofynion ar waith i atal llygredd cronnus dan y broses gynllunio.
- Cael gwared ar rwystrau concrit i adfer llif naturiol afonydd a symudiad rhywogaethau.
- Gweithredu argymhellion Comisiwn Dŵr y DU i sicrhau atebolrwydd ledled y sector dŵr; a mandadu buddsoddiad i wella amgylchedd afonydd trwy gyfrwng atebion sy'n seiliedig ar faint y dalgylch a byd natur.
- Sicrhau bod prosesau rheoleiddio a gorfodi effeithiol yn cael eu hariannu a'u cynnal, ac nad yw diffyg adnoddau fyth yn rhwystr i orfodi effeithiol.

Gweithredu argymhellion o adolygiadau niferus i wella ein hafonydd




Eog yr Iwerydd

Adfer rhywogaethau'r moroedd trwy ddynodi ardaloedd ar gyfer eu gwarchod


Dolffin trwyn potel

© Steve Hartley


Morlo llwyd

Adfer ein cefnforoedd

Mae arfordir Cymru, sy'n 2,700 km o hyd, yn adnabyddus yn fyd-eang am ei harddwch a'i fioamrywiaeth, ond mae'n fregus ac nid oes fawr ddim blaenoriaeth yn cael ei roi ar ei wella; mae asesiadau diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod dros hanner y rhywogaethau a'r cynefinoedd a aseswyd mewn cyflwr gwael.

Os ydym am roi gwerth gwirioneddol ar ein moroedd, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:


- Cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig i sicrhau yr eir i'r afael â'r diffygion o ran gwarchod cynefinoedd a nodweddion. Rhaid i o leiaf 30% o foroedd Cymru fod o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn – fel y'u diffinnir yng Nghanllaw'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sy'n ategu categorïau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) – yng nghyd-destun rhwydweithiau ecolegol-gydlynol ehangach. Dylai o leiaf 10% fod o fewn ardaloedd a warchodir yn llawn, lle bo dull safle cyfan ar waith.
- Gan gydnabod bod y dyddiad cau wedi mynd heibio, blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni Statws Amgylcheddol Da ym moroedd Cymru trwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol hir-ddisgwyliedig, ac felly gwblhau rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
- Erbyn 2026, ymgynghori ar is-ddeddfau a'u rhoi ar waith i leihau gweithgarwch niweidiol megis treillrwydo môr-waelodol, a gwaith datblygu, llusgrwydo, ceblo a llygru yn rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig.



Harbwr Dinbych-y-pysgod

Cynnal bioddiogelwch cadarn ar gyfer ein hynysoedd adar môr gwerthfawr


- Cynllunio ar gyfer anghenion y rhywogaethau symudol hynny sy'n teithio yn ein harfordir ac o'i amgylch – megis adar môr, dolffiniaid a morloi – rhywogaethau y gallai fod yn ofynnol iddynt gael strategaethau pwrpasol ar gyfer cyfnodau gwahanol eu teithiau bywyd, o fridio i fudo. Erbyn 2026, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth Blaenoriaethu Gofodol Morol Cymru sy'n rheoli gweithgarwch dynol yn yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn modd cyfannol i atal gweithgareddau niweidiol a fyddai'n atal nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig rhag cyrraedd cyflwr ffafriol.
- Parhau i gynnal mesurau bioddiogelwch cadarn ar gyfer ynysoedd adar môr gyda chyllid hirdymor.
- Pennu'r modd i fynd i'r afael â'r effeithiau mwyaf ar nodweddion arbennig a darparu adnoddau hirdymor ar gyfer eu cywiro, fel y'u hamlinellir yn Asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, a gweithio gyda Llywodraeth y DU i wahardd 'cemegion am byth' sy'n llygru ein hafonydd a'n moroedd.
- Ariannu a darparu canllawiau ar fonitro electronig o bell ar gychod pysgota i gefnogi arferion pysgota cynaliadwy.
- Symleiddio'r broses drwyddedu forol fel ei bod yn fwy hygyrch i gymunedau ac ar gyfer datblygu prosiectau adfer morweddau.



Pâl yr Iwerydd

Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes Cymru heb unrhyw oedi pellach


Glanhau traeth


Mwnt

Gweithredu ar blastigion untro

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da yn nhymor diwethaf y Senedd o ran gwahardd eitemau plastig untro, ac mae ein cyfraddau ailgylchu yn parhau i fod yn uchel.

Ond mae'r economi gylchol ymhell o gael ei gwireddu o hyd; er mwyn cynnal y momentwm hwn, dylem wneud y canlynol:

- Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes Cymru (DRS) heb oedi, gan ei ddefnyddio fel llwybr allweddol i hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau gwastraff, ac ar yr un pryd cyflwyno gwydr i'r system cyn gynted â phosibl.
- Annog uchelgais lefel uchel barhaus i sicrhau bod Cymru'n gosod y safon ar gyfer cynlluniau effeithiol sy'n canolbwyntio ar ailddefnyddio, ac sy'n cyflawni buddion amgylcheddol ac economaidd, fel ei gilydd.
- Cadw eitemau plastig untro dan adolygiad ar gyfer gwaharddiadau yn y dyfodol, a helpu busnesau i symud oddi wrth eitemau untro.

Dyfodol tlawd ei fyd natur y mae angen i ni ei osgoi


Fferm afiach



1. Mae gorstocio da byw yn cynhyrchu gormodedd o faethynnau gwastraff ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer systemau pori dan arweiniad natur
2. Mae pridd afiach yn arwain at amodau tyfu gwael
3. Mae cynefinoedd ungnwd yn arwain at lai o fioamrywiaeth, a dim ond y bywyd gwyllt mwyaf cyffredin sydd i'w gael ar lawer o ffermydd bellach
4. Gall llai o amrywiaeth o bryfed ar ffermydd arwain at broblemau plâu, megis pla llyslau
5. Os na chânt eu rheoli, mae rhywogaethau goresgynnol, megis Jac y Neidiwr, yn lledaenu'n gyflym
6. Mae diffyg coed a phridd afiach yn gwneud y tir yn fwy agored i sychder, ac mae amodau'r tywydd yn dod yn fwyfwy anodd eu rhagweld

Dyfodol tlawd ei fyd natur y mae angen i ni ei osgoi

Afon afiach



1. Mae cored yn rhwystro symudiad naturiol pysgod, gan atal patrymau mudo a silio

2. Mae plaladdwyr a ddefnyddir mewn triniaethau anifeiliaid anwes, ynghyd â chynhyrchion chwistrellu cnydau, yn llifo i'r afon, gan greu amgylchedd gwenwynig ar gyfer infertebratau a physgod

3. Mae coed conwydd yn rhy agos at ymyl yr afon yn gwneud y pridd a dŵr yr afon yn asidig

4. Mae prosesau rheoli gwastraff gwael ym myd amaeth yn golygu bod slyri'n mynd i mewn i afonydd, ac mae CNC wedi adrodd am dros 100 o ddigwyddiadau llygredd ffermydd y flwyddyn

5. Ni chaiff cwmnïau dŵr eu dwyn i gyfrif am y difrod a achosir gan ollyngiadau carthffosiaeth sydd uwchlaw'r terfynau cyfreithiol

6. Gan fod sbwriel plastig yn diraddio mewn afonydd, canfyddir bod 50% o bryfed dŵr croyw wedi llyncu microblastigion

7. Mae deunydd lapio silwair heb ei waredu'n briodol ar ffermydd yn ychwanegu at lygredd plastig

8. Gall da byw yn sathru ar y tir achosi problemau cywasgu yn adeiledd y pridd ac yn nhwf y glaswellt

9. Twf algâu gormodol wedi'i achosi gan lefelau uchel o faethynnau yn yr afon

Dyfodol tlawd ei fyd natur y mae angen i ni ei osgoi

Môr afiach



1. Goruchwyliaeth wael yn arwain at ddamweiniau diwydiannol megis gollyngiadau cemegol a gollyngiadau olew
2. Mae offer pysgota a ollyngwyd yn anfwriadol yn peryglu ac yn lladd bywyd gwyllt y môr
3. Ni chaiff cwmnïau dŵr eu dwyn i gyfrif am y difrod a wneir gan ollyngiadau carthffosiaeth uwchlaw'r terfynau cyfreithiol
4. Mae diffyg polisïau economi gylchol yn arwain at fwy o sbwriel ar ein traethau
5. Mae gweithgarwch morol anghyfrifol ac ansensitif yn tarfu ar forloi, gan amharu ar eu safleoedd bridio
6. Mae rhwystrau llifogydd concrit traddodiadol – yn hytrach na rhai naturiol – yn cael eu llethu gan lifogydd cyson
7. Mae lleoli datblygiadau adnewyddadwy mewn mannau ansensitif yn arwain at aflonyddwch difrifol i fywyd gwyllt





Rhwydwaith o Gyrff amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth Anllywodraethol Cymru, yw Cyswllt Amgylchedd Cymru. Corff cyfryngol sydd yn uchel ei barch, yn cysylltu'r llywodraeth gyda'r sector amgylcheddol anllywodraethol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd iach yng Nghymru sydd yn ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

afonydd cymru
caring for welsh rivers

amphibian and reptile conservation

Bat Conservation Trust

BMC
Cyngor Mynydda Prydain

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

buglife

Bumblebee Conservation Trust

Butterfly Conservation

CAMPAIGN for NATIONAL PARKS

YMGYRCH y PARCIAU CENEDLAETHOL

CIEEM

ClientEarth

COED CADW WOODLAND TRUST

CoedLleol SmallWoods

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Freshwater Habitats Trust

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Open Spaces Society

Plantlife Cymru

RAMBLERS CYMRU

REWILDING BRITAIN

RSPB CYMRU

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

Soil Association CYMRU

TIR NATUR

WildFish.

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

WWF

YDCW CPRW

yha

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

Wales Environment Link (Elusen Gofrestredig 1022675)
® 2025 Wales Environment Link